

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

### Eisteddfod yr Urdd, Cylch Aberystwyth

Hoffwn longyfarch pawb a fu ynghlwm â'r Eisteddfod Gylch ddoe. Bu'r ysgol yn llwyddiannus mewn sawl cystadleuaeth ac edrychwn ymlaen at gystadlu yn y rownd nesaf sef yr Eisteddfod Rhanbarth yn Neuadd Ponrhydfendigaid ar ddydd Sadwrn y 9fed o Fawrth 2024.

Bydd mwy o wybodaeth a rhaglen yr Eisteddfod yn eich cyrraedd wythnos nesaf.



### Rygbi

Gohiriwyd y twrnamaint rygbi i fechgyn bl.5a6 y tro diwethaf oherwydd glaw. Mae'r twrnamaint wedi ei ail-drefnu ar gyfer Dydd Mawrth y 5ed o Fawrth yn Ysgol Henry Richard, Tregaron.

Bydd y bechgyn eisoes wedi derbyn llythyr – yr un yw'r trefniadau eto o safbwynt amseroedd a phe cyn bwyd cinio ac ati.

Bydd sesiwn ymarfer rygbi ar gyfer y tîm ar Nos Iau y 29ain o Chwefror ar gae'r ysgol o 3:30 – 4:30yp



### Y Gymraeg – DYDD GŴYL DEWI – Bore Coffi

Mae Pwylgor y Siarter Iaith a'r staff yn awyddus i gynnal Bore Coffi yn yr ysgol ar fore Dydd Gŵyl Dewi.



Bydd hyn yn gyfle i chi fel rhieni a gwarcheidwaid i ddod i Neuadd yr ysgol am 8:30yb er mwyn cael paned a phice ar y maen, a chlonc gyda chriw y Siarter Iaith a fydd yn gweini. Am tua 9:10yb bydd criw o blant Blwyddyn 1 yn canu cân i'ch diddanu. Byddwn yn ffilmio'r canu gan flwyddyn 1 a'i rannu gyda chi os na allwch fynychu oherwydd ymrwymadau eraill.

Rydyn ni'n ddiolchgar i Tesco am gyfrannu pice ar y maen am ddim i'r ysgol ar gyfer y digwyddiad hwn.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Pwylgor Dyngarol wedi bod yn brysur yn gwerthu cennin pedr yn ystod yr wythnos wrth godi arian at ymgyrch Marie Curie. Bydd modd i chi roi cyfraniad i hyn hefyd os y dymunwch.

Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau'r GRHA a fydd yn ein cynorthwyo ar y bore.

## Parêd Gŵyl Dewi

Dyma boster Parêd Gŵyl Dewi sy'n cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn yr 2ail o Fawrth.

Byddwn ni fel ysgol yn cerdded yn y parêd, ac mae croeso i ddisgyblion yr ysgol a chi fel rhieni a gwarcheidwaid i ymuno gyda ni yn ein parêd.

Mae'r manylion llawn yn y rhaglen – byddwn yn cwrdd wrth gloc tref Aberystwyth am 12:50yp er mwyn cael cychwyn cerdded am 1 o'r gloch. I weld y rhaglen lawn cliciwch [yma](#)

## Opera ABC

Mi gofiwch i griw o ddisgyblion Blwyddyn 6 fynychu'r Neuadd Fawr fis diwethaf er mwyn canu gyda chôr ledled Cymru. Bellach mae fideo wedi ei chynhyrchu yn dangos y cydweithio.

I wyllo'r fideo 'Pawb i ganu'n un' cliciwch [yma](#)

Dathlwn Dewi,  
ein traddodiadau a'r Gymraeg  
In celebration of St David, our traditions  
and the Welsh language

**PARÊD  
GŴYL DEWI**

**Bagad Sblot Samba Agogo MC Geraint Lloyd  
Band Arian Aberystwyth Silver Band  
TYWYSYDD · DAVID GREANEY**  
Sesiwn Werin | Folk Session - Llew Du, 2.30

**Cloc y Dref > Llys-y-Brenin.**  
1.00pm Sadwrn 2 Mawrth | Saturday 2 March 2024

gwyldewiaber.cymru @GwylDewiAber  
facebook.com/ParêdGwylDewiAberystwyth

CYNGOR TREF  
ABERYSTWYTH  
TOWN COUNCIL

## Diwrnod y Llyfr – Mawrth 7<sup>fed</sup>

Blaenrybudd – bydd cyfle i'r plant ddod â'u hoff lyfrau i'r ysgol gyda nhw ar y diwrnod hwn.

Byddwn yn annog pawb i ddarllen yn ystod y dydd, ac felly **mae croeso i bawb wisgo eu dillad eu hunain – eu dillad cyffyrddus** – er mwyn ymlacio a darllen yn ystod y dydd. Os hoffent ddod â rhywbeth fel clustog i'w helpu i ymlacio mae croeso iddynt wneud. Deallwn hefyd y bydd rhai yn awyddus i wisgo lan fel cymeriadau o lyfr – mae pob croeso iddynt wneud hyn, ond dydyn ni ddim am annog hynny – nac annog neb i fynd i brynu gwisgoedd arbennig. **Dathlu llyfrau** fydd prif ffocws y dydd.

## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Bydd y dydd Llun cyntaf wedi gwyliau'r Pasg, Ebrill 8fed, yn ddiwrnod H.M.S (Hyfforddiant Staff)

Bydd tymor yr haf yn cychwyn i blant felly ar ddydd Mawrth y 9fed o Ebrill.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

23/02/2024

[www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

### **Aberystwyth Area Urdd Eisteddfod**

*I would like to congratulate everyone who was involved in the Aberystwyth Area Eisteddfod yesterday. The school was successful in several competitions and we look forward to competing in the next round which is the Regional Eisteddfod in Pontrhydfendigaid Hall on Saturday the 9th of March 2024.*

*More information and the Eisteddfod programme will reach you next week.*

### **Rugby**

*The rugby tournament for yrs.5 and 6 boys was postponed last time because of the rain. The tournament has been rescheduled for Tuesday 5th of March at Ysgol Henry Richard, Tregaron. The boys will have already received a letter - the arrangements are the same as before regarding times and packed lunch etc.*

*There will be a rugby training session for the team on Thursday the 29th of February on the school field from 3:30 – 4:30pm*



### **The Welsh language – ST. DAVID'S DAY - Coffee Morning**

*The Starter Iaith Committee and the staff are keen to host a Coffee Morning at the school on St David's Day morning.*

*This will be an opportunity for you as parents and guardians to come to the school hall at 8:30am to have a cup of tea or coffee and a Welsh cake, and a chat with the Starter Iaith crew who will be serving.*

*At around 9:10am a group of Year 1 children will sing a song to entertain you. We will film the song by year 1 and share it with you if you cannot attend due to other commitments.*

*We are grateful to Tesco for donating Welsh cakes for free to the school for this event.*

*In addition to this, the Humanitarian Committee has been busy selling daffodils during the week while raising money for the Marie Curie campaign. You will be able to give a contribution to this too if you wish.*

*I would also like to thank the members of the PTA who will assist us on the morning.*



### **Saint David's Parade**

This is the poster for the St David's Day Parade which takes place on Saturday the 2nd of March.

We as a school will be walking in the parade, and school pupils along with you as parents and guardians are welcome to join us in our parade.

Full details are in the programme - we will meet at the Aberystwyth town clock at 12:50pm in order to start walking at 1 o'clock.

To see the full programme click [here](#)

### **ABC choir**

You'll remember that a group of Year 6 pupils attended the Great Hall last month to sing with a choir all over Wales. There is now a video has been produced showing the collaboration.

To watch the video 'All sing together' click [here](#)

### **World Book Day – March 7th**

The children will have the opportunity to bring their favourite books to school with them on this day.

We will encourage everyone to read during the day, and therefore everyone is welcome to wear their own clothes - their comfortable clothes - in order to relax and read during the day. If they would like to bring something like a cushion to help them relax and feel comfortable they are welcome to do so.

We also understand that some will want to dress up like characters from a book - they are welcome to do this, but we do not want to encourage anyone to go and buy special costumes. **Celebrating books** will be our main focus.

### **Half Term Calendar**

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.

### **Important dates next half term**

The first Monday after the Easter holidays, April 8th, will be an I.N.S.E.T day (Staff Training)

The summer term will therefore start for children on Tuesday the 9th of April.

**If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.**

Yours sincerely,

**Gareth L James**

**Acting Headteacher**

**23/02/2024**

[www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)

